

Ras Canolfannau Hamdden Gwynedd i leihau ôl-troed carbon



Mae Canolfannau Hamdden yng Ngwynedd wedi llwyddo i leihau eu hól-troed carbon yn sylweddol o 10% dros dair blynedd, yn arbed mwy na 123,000kg mewn allyriadau CO₂ yn ystod y flwyddynnddiwethaf yn unig.

Yn ôl yn 2015, lanswyd prosiect peilot a welodd Uned Cadwraeth Ynni Cyngor Gwynedd a 12 Canolfan Hamdden yn gweithio gyda'i gilydd i geisio lleihau defnydd ynni. Er mwyn gwneud hyn, penodwyd Pencampwr Ynni o fewn pob canolfan, a fyddai'n gyfrifol am arbed ynni o fewn eu hadeilad, gyda chefnogaeth Tîm Ynni'r Cyngor.

Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi cynnwys gosod uned gwres a phŵer cyfunol ynni effeithlon yn lle'r hen foeleri, gosod synwryddion ac uwchraddio goleuadau, gwella ynysu, gosod gorchuddion pwll sy'n arbed ynni, gosod paneli solar 'PV' a gwneud gwaith atal drafftiau.

Ond yn ogystal â buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf, bu i'r Tîm Ynni hefyd ganolbwyntio ar newid agweddau ac ymddygiadau staff i'w hannog i ymddwyn mewn ffordd fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Fel rhan o hyn, cafodd y Pencampwyr Ynni ddatblygu'r sgiliau i ddefnyddio meddalwedd sydd yn caniatáu iddynt reoli ac addasu systemau gwresogi eu canolfannau.

Yn y gorffennol, roedd yn rhaid i staff Canolfannau Hamdden ddibynnu ar y Tîm Ynni – sydd wedi eu lleoli ym Mhencadlys y Cyngor yng Nghaernarfon – i wneud hyn drostynt o bell.

Dyweddodd Steve Smith, Swyddog Prosiectau ac Ansawdd Hamdden: “Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Pencampwyr Ynni a'r gwasanaeth Hamdden yn gyffredinol wedi ymrwymo i'r prosiect hwn yn llwyr, ac mae'r Pencampwyr eu hunain wedi bod yn rhagweithiol yn arbed ynni o fewn eu canolfannau.

“Rydym wedi gweithredu yn ôl y gred eu bod nhw'n adnabod yr adeiladau hyn yn well nag unrhyw un arall, ac felly mae eu hymwybyddiaeth wedi bod yn allweddol yn adnabod cyfleoedd newydd i wneud arbedion pellach.

“O safbwynt ein defnyddwyr gwasanaeth, mae galluogi staff Hamdden i reoli systemau gwresogi eu hadeiladau eu hunain mewn gwirionedd wedi cael effaith bositif ar brofiad cwsmeriaid. Er enghraifft, os ydym yn derbyn sylwadau fod ystafell stiwdio yn rhy gynnes neu'n rhy oer, rydym yn gallu addasu'r tymheredd yn unol â'u hanghenion yn gynt.

“Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n gilydd i leihau defnydd ynni hyd yn oed ymhellach i'r dyfodol.”

Mae'r prosiect yn ffurfio rhan o Gynllun Rheoli Carbon y Cyngor, a gafodd ei lansio yn 2010 fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i leihau'r effaith y mae'n ei gael ar yr amgylchedd. Hyd yn hyn, mae'r cynllun wedi lleihau ôl-troed carbon o 34.5% ac arbed mwy na £4,000,000 mewn costau refeniw. Ei nod nesaf yw lleihau allyriadau carbon o 40% erbyn 2021.

Ychwanegodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd Amgylchedd: “Yn gyffredinol, mae Canolfannau Hamdden yn defnyddio cryn dipyn o ynni, yn enwedig y rhai sydd gan byllau nofio. Mae ein Canolfannau Byw'n Iach yng Ngwynedd yn cyfrif tuag at oddeutu 17% o'r holl ynni y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio, felly mae eu cefnogi i leihau eu defnydd nid yn unig yn arwain at fanteision enfawr o ran lleihau ein ôl-troed carbon, ond ein costau ynni'n ogystal.

“Rydym yn hynod o falch o beth sydd wedi cael ei gyflawni gan y prosiect hyd yn hyn; mae'n enghraifft wych o sut gall cydweithio greu canlyniadau positif i bawb.”

Am ragor o wybodaeth am y Cynllun Rheoli Carbon, ewch i:

www.gwynedd.llyw.cymru/rheolicarbon

Llun: Y Cyngorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, gyda Phencampwyr Ynni Darren Anthony a Neil Owen tu allan i Ganolfan Hamdden Arfon